# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 6 Mehefin 2000

## R Yn dynodi bod yr aelod wedi datgan buddiant.

## (Dangosir rhif y Cwestiwn gwreiddiol mewn cromfachau )

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all hi ddweud a fydd arolwg o Ddyraniadau Cyngor Iechyd Cymuned yn cael ei gynnal, a phryd. (WAQ5737)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth mae hi am ei wneud i sicrhau bod dyraniadau ariannol i Gynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru yn cael eu rhannu'n decach. (WAQ5738)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes ffigurau'n bod o nifer y bobl yng Nghymru sy'n dioddef o anhwylderau bwyta. (WAQ5742)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Yn dilyn apêl y Gymdeithas Feddygol Brydeinig, pa gynigion sydd ganddi i annog y cyfryngau yng Nghymru i hybu siapau mwy realistig ymhlith menywod er mwyn gostwng nifer yr achosion o anorexia nervosa a bwlimia. (WAQ5743)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ar ganlyniadau Arolwg Iechyd Cymru 1998 sy'n dangos bod lefelau canser ymhlith rhai dros 18 oed yng Nghonwy yn 7.2% o'i gymharu â 4.7% yn Rhondda Cynon Taf. (WAQ5731)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Beth yw'r cyfraddau canser ar gyfer y bobl sy'n byw o fewn un cilometr i Arfordir y Gogledd o'u cymharu â'r cyfraddau ar gyfer y rheini sy'n byw y tu allan i'r ardal hon. (WAQ5736)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes ganddo gynlluniau i roi arian i eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol o goffrau'r Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau eu bod yn goroesi. (WAQ5734)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut mae'n bwriadu annog disgyblion o gefndiroedd llai breintiedig i ymgeisio am leoedd mewn prifysgolion. (WAQ5739)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut mae'n bwriadu sicrhau bod disgyblion ysgolion gwladol a phreifat yng Nghymru yn cael yr un cyfle i fanteisio ar addysg prifysgol (WAQ5741)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd yn eu lle neu ar y gweill i leihau'r achosion o fwlio yn ysgolion Cymru. (WAQ5740)

Gofyn i Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all ddweud beth fu cost gohirio prosiect adeilad y Cynulliad hyd yma. (WAQ5744)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'n bwriadu cynnal trafodaethau ag awdurdodau lleol Cymru i ailystyried y ffordd y mae eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol yn cael eu cyllido. (WAQ5733)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** Pa gamau y mae'r Cynulliad yn eu cymryd i annog cwmnïau tacsis i gynyddu nifer y cerbydau sy'n gallu derbyn cadeiriau olwyn. (WAQ5732)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl ar gyfer yr henoed drwy sicrhau bod modd iddynt gael gostyngiad ar drafnidiaeth gymunedol yn ogystal ag ar drafnidiaeth gyhoeddus. (WAQ5735)